Y Grŵp Trawsbleidiol ar Sipsiwn a Theithwyr

Dydd Mercher 2 Mai 2018

12.30-2pm:

Ystafell Friffio'r Cyfryngau yn y Senedd

| | |
|---|---|
| Adelaide Purcell - Cyd-Gadeirydd | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Carly Thomas | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Angel Price | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Shell Annet | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Julene Froher | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Tyrone Price | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Sir Benfro) |
| Ricky Price | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (Sir Benfro) |
| Chaltina Price | Sir Benfro |
| Shona Probert | Sir Benfro |
| Sophie Price | Sir Benfro |
| Julie Morgan AC | Aelod Cynulliad Gogledd Caerdydd, Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol |
| Helen West | Swyddfa Julie Morgan |
| Nancy Cavill | Swyddfa Julie Morgan |
| Sonia Dickson | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (Caerdydd) |
| Thomas Hendry | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru (Casnewydd) |
| Leanne Morgan | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Sir Benfro) |
| Kirby Jones | Cymdeithas Sipsiwn a Theithwyr yng Nghymru, (Sir Benfro) |
| Alison Hulmes | Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain |
| Ginger Wiegand | EYST (Prosiect Ymgysylltu Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig a Ieuenctid Cymru) |
| Emma Keen | GEMS (Gwasnaeth Addysg Ethnig Lleiafrifol Gwent) |
| Hannah Lawton | Heddlu Gwent |
| Rebecca Preston | Gwasanaeth Teithwyr Gwent (Pobl) |
| Jasmine Jones | Sipsiwn a Theithwyr Cymru (Grŵp Sipsiwn a Theithwyr yn flaenorol) |
| Shelley Morris | Ysgol Gymunedol Priordy Monkton (Sir Benfro) |
| Ruby Price | Sir Benfro |
| Andree Morgan-Andrews | Powys |
| Isaac Blake | Cwmni Celf a Diwylliant Romani |
| Brian Amos | SEWREC |
| David Phillips | SEWREC |
| Mike Doherty neu Lisa Smith | Travellers Times |
| Trudy Aspinwall | Teithio Ymlaen (Rheolwr Prosiect) |
| Martin Gallagher | Teithio Ymlaen (Gogledd Cymru) |
| Rhiannon Jones | Teithio Ymlaen (Gogledd Ddwyrain Cymru) |
| Denise Barry | Teithio Ymlaen (Gogledd Orllewin Cymru) |
| Amanda Cartwright | Llywodraeth Cymru |
| John Davies | Llywodraeth Cymru |

| | |
|---|---|
| Sue Morgan | Ysgol Gorllewin Sir Fynwy, Torfaen |
| Lee Waters AC | Aelod Cynulliad dros Lanelli |
| Julie James AC | Arweinydd y Tŷ a’r Prif Chwip |

Dechreuodd Julie Morgan trwy groesawu pawb i'r cyfarfod, a dywedodd pa mor falch y mae'r grŵp o groesawu Julie James AC, Arweinydd y Tŷ gyda chyfrifoldeb dros Sipsiwn a Theithwyr. Croesawodd Adelaide Purcell hefyd, a oedd yn cyd-gadeirio'r cyfarfod. Cadarnhaodd Julie mai'r cyfarfod hwn oedd y cyfle i bobl ifanc ofyn cwestiynau i Arweinydd y Tŷ ynghylch unrhyw bryderon a oedd ganddynt.

Yna rhoddodd Julie James AC drosolwg byr o'r hyn y mae wedi'i wneud ers cymryd rôl Arweinydd y Tŷ ym mis Tachwedd. Esboniodd Julie ei bod hi'n mynd ar daith o amgylch y safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor. Mae hi'n mynd i'r safle yn gyntaf ac yn gwrando ar bryderon a phroblemau'r rhai sy'n byw yno, ac yna'n mynd i gyfarfod â swyddogion y Cyngor i adrodd yn ôl am y pryderon hynny. Diolchodd Julie i bob un o'r Sipsiwn a Theithwyr a oedd yn byw ar y safleoedd y bu'n ymweld â nhw hyd yn hyn am fod mor groesawgar. Aeth Julie ymlaen i ddweud bod ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd a'i bod hi'n ymwybodol bod rhai pobl yn yr ystafell eisoes wedi ymateb. O ran Teithio i Ddyfodol Gwell, dywedodd Julie fod llawer wedi ei roi ar waith eisoes ond mae angen gwneud mwy.

Atgyfnerthodd Julie James AC yr angen am lety diogel i Sipsiwn a Theithwyr a'r ffaith bod angen i gynghorau gymryd eu cyfrifoldeb am ddarparu hyn o ddifrif. Aeth ymlaen i ddweud bod angen inni fynd i'r afael â stereoteipiau a rhagfarnau negyddol ac mae hi'n gweithio gydag Ysgrifenyddion eraill y Cabinet i fynd i'r afael â hyn. Mae atgasedd pobl yn dod o'u hanwybodaeth. Cadarnhaodd Julie fod Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu'r prosiect Teithio Ymlaen. Yna, aeth ymlaen i ddweud pa mor bwysig yw hi i blant Sipsiwn a Theithwyr aros yn yr ysgol. Fodd bynnag, mae hi'n cydnabod bod yna rai anawsterau y mae angen eu goresgyn - megis cost cymryd plentyn i'r ysgol, cludiant ac ati. Gorffennodd Julie drwy ddweud sut roedd hi'n edrych ymlaen at glywed cwestiynau'r bobl ifanc yn yr ystafell.

1. Cyfleusterau i blant a phobl ifanc ar safleoedd - meysydd chwarae a pharciau
    - Rhoddwyd enghraifft o'r safle Midland sydd â man gwyrdd ond dim cyfarpar chwarae i blant arno.
    - Dywedodd Trudy Aspinwall fod y sefyllfa ar safle Wrecsam yr un peth. Dywedodd ei bod hi'n ymwybodol bod archwiliadau wedi cael eu cynnal i fannau chwarae ond nad oedd hi'n gwybod beth oedd eu canlyniad.
    - Dywedodd Kirby Jones fod y cyngor yn parhau i gynnal ymgynghoriadau i ofyn am farn Sipsiwn a Theithwyr ond nid oes dim yn digwydd. Mae hyn yn golygu bod Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu dadrithio ac nad ydynt yn barod i gymryd rhan rhagor.
    - Ymatebodd Julie James trwy ddweud y byddai ei swyddogion yn cysylltu â'r cyngor sy'n rhedeg safle'r Midland ac y byddai Llywodraeth Cymru yn barod i ariannu offer newydd. Gofynnodd Julie i bawb wneud yn siŵr bod eu cynghorau yn ymwybodol y gallant wneud cais drwy'r Grant Cyfalaf am gyllid ar gyfer offer chwarae newydd. Mae'r cyfleuster ariannu yno, yr unig beth sydd angen ei

wneud nawr yw sicrhau bod Cynghorau yn ei ddefnyddio. Ymrwymodd Julie i barhau â'r gwaith o wneud hyn.

2. Beth all Arweinydd y Tŷ ei wneud i roi cymorth i rieni i ddeall manteision addysg i'w plant?
    - Dechreuodd Julie James trwy ddweud ei bod hi wedi ymweld â rhai o'r safleoedd Sipsiwn a Theithwyr gyda gweithiwr chwarae a oedd yn dweud pa mor bwysig yw hi i gael plant Sipsiwn a Theithwyr i fynd i'r feithrinfa gan fod hynny yn eu hymgyfarwyddo â bod yn y system. Mae hefyd yn dangos i rieni pa mor dda yw eu bod yn cael addysg. Cydnabu Julie fod problemau ymarferol o ran cael plant i fynd i'r ysgol, yn enwedig i'r ysgol gynradd, a gofynnodd i'r grŵp roi gwybod iddi beth y gellir ei wneud i wella pethau.
    - Ychwanegodd Kirby Jones bod ei nith, sy'n dair blwydd oed, yn dioddef o ddiabetes, a bod yr arian a oedd hi'n ei gael yn yr ysgol i'w chefnogi yn flaenorol bellach wedi cael ei gymryd oddi arni. Gofynnodd Julie James i Kirby ysgrifennu ati gyda mwy o fanylion er mwyn iddi ymchwilio i sefyllfa ei nith.
    - Yna, eglurodd Kirby pa mor bwysig yw Ysgol Gymunedol Priordy Monkton yn y gwaith o annog plant i ddod i'r ysgol a chefnogi'r rhieni. Dechreuodd dros 20 mlynedd yn ôl ac mae'n gweithio'n agos iawn gyda'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr.

3. Beth all Arweinydd y Tŷ ei wneud i sicrhau bod athrawon ysgol yn cael hyfforddiant ar ddiwylliannau Sipsiwn a Theithwyr
    - Dechreuodd Julie James ei hateb trwy ddweud ei bod hi'n mynd i siarad â Kirsty Williams (Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg) am hyfforddiant athrawon wrth i ganllawiau newydd gael eu cyhoeddi. Mae angen i athrawon wybod sut i ddelio â rhagfarn mewn ysgolion. Mae'n hollbwysig sicrhau bod athrawon wedi'u hyfforddi'n iawn ac nad ydynt yn gwaethygu'r sefyllfa. Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnwys aelodau'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn yr hyfforddiant hefyd.
    - Nodwyd nad yw'r Bil ADY yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr a 16 o grwpiau eraill sy'n agored i niwed. Collwyd cefnogaeth ar ei gyfer o ganlyniad i hyn.
    - Gofynnodd Lee Waters AC am hyfforddiant ar gyfer athrawon presennol ac ymatebodd Julie James drwy ddweud bod cyrsiau datblygu proffesiynol parhaus ar gael i athrawon ac y byddai hi hefyd yn codi hyn gyda Kirsty Williams.
    - Eglurodd Trudy fod y rhan fwyaf o'r bobl yn yr ystafell wedi cyfrannu mewn rhyw ffordd neu'r llall i hyfforddiant athrawon. Mae'r newidiadau i'r cyllid ar gyfer addysg Sipsiwn a Theithwyr wedi golygu bod yr arian wedi diflannu heb unrhyw asesiad effaith. Esboniodd Julie James bod newidiadau i'r cyllid a ddarperir i Gynghorau yn anffodus wedi cael effaith ar y cyllid ar gyfer addysg Sipsiwn a Theithwyr. Yn y gorffennol, roedd arian wedi ei neilltuo ar gyfer hyn, ond penderfynodd Llywodraeth Cymru gael gwared ar yr elfen a oedd wedi'i neilltuo i greu mwy o hyblygrwydd. Mae trafodaeth ddwys yn mynd rhagddi ac mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £7.5m ychwanegol i geisio helpu â'r ansicrwydd hwn. Cadarnhaodd Julie y byddai'n adrodd yr holl wybodaeth yn ôl ac yn parhau â'r trafodaethau.
    - Ychwanegodd Tom-tom, os bydd plentyn Sipsiwn neu Deithwyr yn stopio cael addysg am unrhyw reswm, yna mae'n debygol iawn na fydd yn mynd yn ôl ato. Mae'n hollbwysig bod y broses yn ddi-dor.

4. Sut all Arweinydd y Tŷ sicrhau bod y bobl fwyaf difreintiedig, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr, wir yn elwa o'r addewidion y mae gwleidyddion yn eu gwneud?
    - Atebodd Julie James trwy ddweud bod gan rai safleoedd ysgolion Dechrau'n Deg gerllaw, ond nid pob un. Cadarnhaodd bod angen edrych yn fwy manwl ar hynny. Ychwanegodd Julie y gallai hyn fod oherwydd nad yw'r cyfleusterau ar gael, megis canolfannau cymunedol ac ati. Mae teithio i'r ysgol yn rhoi Sipsiwn a Theithwyr dan anfantais bellach.
    - Dywedodd John Davies ei bod yn aml yn wir fod safleoedd y tu allan i'r codau post rhagdybiedig sy'n gymwys ar gyfer Dechrau'n Deg.
    - Gofynnodd Andree i Julie James a fydd hi'n ymweld ag unrhyw safleoedd preifat ledled Cymru. Cadarnhaodd Julie James mai dyna oedd ei bwriad hi.

5. Polisi cynllunio - prynu safleoedd preifat
    - Cadarnhaodd Julie James fod ymgynghoriad ynghylch hyn yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac anogodd bawb i ymateb iddo.
    - Pwysleisiodd Kirby eto fod y cyngor yn cynnal asesiadau anghenion llety ar safleoedd ond nid oes dim yn newid o ganlyniad. Mae'n eithriadol o rwystredig i'r rheini sy'n rhan o'r broses.
    - Eglurodd John Davies fod cyngor Sir Benfro wedi gwneud cais am grantiau i wella / adeiladu safleoedd ond nad yw Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i'w cymeradwyo eto.
    - Dywedodd Kirby mai'r brif broblem yw nad yw'r cyngor yn cyfathrebu â'r bobl yn y gymuned i roi gwybod iddynt beth sy'n digwydd. Mae angen ailystyried sut mae'r cyngor yn gweithredu yn hyn o beth.
    - Gofynnwyd cwestiwn hefyd ynghylch a yw ACau neu Gynghorwyr yn derbyn hyfforddiant yn ymwneud â diwylliant Sipsiwn a Theithwyr. Cadarnhaodd Julie James ei fod yn sicr nad yw ACau yn gwneud hynny ac nad yw'n orfodol i gynghorwyr ar hyn o bryd.
    - Gofynnodd Andree a oes rhywbeth yn cael ei wneud i helpu'r rhai sydd am adeiladu eu safleoedd eu hunain, yn hytrach na byw ar un sy'n cael ei redeg gan y cyngor. Ailadroddodd Julie James mai ei bwriad wrth deithio o amgylch Cymru yw darganfod anghenion Sipsiwn a Theithwyr a chael ateb i gwestiynau fel hyn.

6. A yw Arweinydd y Tŷ yn cytuno, gan fod Awdurdodau Lleol yn adeiladu safleoedd mwy parhaol gyda Llywodraeth Cymru, bod hynny'n atgyfnerthu'r dymuniad i ddod â nomadiaeth i ben a bod angen i ni ystyried sut i greu safleoedd diogel i bobl aros heb danseilio eu ffordd o fyw fel Sipsiwn a Theithwyr?
    - Cadarnhaodd Julie James ei bod yn hollbwysig cael mannau diogel i bobl aros a hefyd bod gwir angen safleoedd tramwy. Ychwanegodd ei bod hi'n siarad â llywodraeth y DU am rai pethau sydd ar hyn o bryd yn rhwystro cynghorau rhag adeiladu safleoedd tramwy.
    - Ychwanegodd Tom-tom nad yw pawb eisiau byw ar safle tramwy; y byddai'n well ganddynt aros ar ochr ffordd / cae. Ychwanegodd Julie fod byw ar ochr y ffordd a chael cyfleusterau digonol yn broblem fawr ac yn sicr yn rhywbeth y byddai hi'n ymchwilio iddo.

Diolchodd Julie Morgan i Julie James am ddod i'r cyfarfod a chlywed cwestiynau'r bobl ifanc. Gofynnodd Julie Morgan a ellid anfon unrhyw gwestiynau heb eu hateb at Julie James.

Yna cafodd y grŵp drafodaeth gyffredinol. Gofynnodd Trudy i bawb os oedd ganddynt unrhyw faterion y byddent yn hoffi eu hychwanegu at yr ymgynghoriad Teithio at Iechyd Gwell gan fod amser o hyd i gyflwyno ymatebion. Gofynnodd Tom-tom am gynnwys cyllid addysg a gofynnodd Adelaide am gynllunio ar gyfer safleoedd preifat. Codwyd p'un a oedd unrhyw gefnogaeth i bobl ifanc a aeth i'r ysgol yn ifanc, yna gadael a mynd yn ôl pan oeddent tua 14-15 mlwydd oed. Mae bwlch yn eu haddysg felly a oes unrhyw gefnogaeth ar eu cyfer. Gofynnodd Sonia Dickson am gludiant ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a chymorth i deuluoedd â phlant ag anghenion arbennig. Ychwanegodd David fod Gweinidogion yn tueddu i edrych ar grwpiau fel menywod, pobl ifanc, pobl anabl ac ati, heb wneud cysylltiadau rhyngddynt. Beth am ferched ifanc, anabl - a oes unrhyw beth wedi'i neilltuo ar eu cyfer nhw? Ychwanegodd Trudy wedyn nad oes asesiadau effaith yn cael eu gwneud ynghylch sut y dylai Sipsiwn a Theithwyr gael eu cynnwys. Er enghraifft, gwnaed gwaith ffordd ar ffordd a oedd yn arwain at safle ond ni wnaed unrhyw asesiad effaith i'r rheini a oedd yn byw ar y safle. Awgrymwyd hefyd y dylid cynnwys anghenion dysgu plant sy'n derbyn gofal, yn ogystal â'r rhwystrau sy'n wynebu Sipsiwn a Theithwyr wrth geisio cael swyddi.

Daeth y cyfarfod i ben am 2pm.